Dathlu llwyddiant ysgubol disgyblion mewn seremoni wobrwyo ddisglair yn Ysgol Dyffryn Conwy, Llanrwst.

Cynhaliwyd seremoni wobrwyo lwyddiannus iawn yn Ysgol Dyffryn Conwy ar yr 17eg o Fedi yng nghwmni gwahoddedigion arbennig. Er i'r ysgol brofi blwyddyn ragorol yn 2012/13 ar y maes chwarae ac yn yr Eisteddfod Genedlaethol, roedd y noson hon yn neilltuol am ragoriaeth academaidd. Cymaint oedd y llwyddiannau academaidd fel bod 96 gwobr wedi ei chyflwyno i ddisgyblion. Y gŵr gwadd arbennig oedd Mr Guto Bebb AS dros Aberconwy a chafodd ef y pleser o gyflwyno llawer o wobrau sylweddol a gwerthfawr.

Dywedodd Mr Paul Matthews-Jones, Pennaeth, ei fod yn ymhyfrydu o gael cynnal noson i ddathlu, "Mae cyflawniadau academaidd ein disgyblion yn hynod iawn. Heno mae'r ysgol a minnau fel Pennaeth, yn dathlu, nid yn unig ganlyniadau TGAU a Lefel A ond hefyd orchest y disgyblion, eu rhieni a'u teuluoedd sy'n haeddu'r holl lwyddiant a'r anrhydedd a roddwyd iddynt. Hoffwn hefyd ddiolch i Mr Geraint James, Y Prif Swyddog Addysg am ei bresenoldeb a hefyd am gefnogaeth ei holl adrannau i addysg yng Nghonwy.".

Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Dr Harold Williams am ragoriaeth ac ar gyfer astudiaeth bellach mewn Prifysgol yn y DU i Haydn Jenkins a gafodd A*, A*, A A yn ei lefel A.
Aeth Ysgoloriaeth William J Lewis hefyd i ddau fyfyriwr arbennig Ffion Adele Hughes sydd eisoes wedi dechrau ar ei chwrs Gwyddoniaeth filfeddygol ym Mhrifysgol Caeredin gyda 3 gradd A* berffaith mewn Bioleg, Cemeg a Mathemateg; ac, ar ei ffordd i Warwick, Prifysgol Grŵp Russell arall i astudio Mathemateg- Benjamin Griffith gydag A* Ac ac A.

Dyfarnwyd Ysgoloriaeth Holt i Angharad Evans AAAC a Mali Wyn Roberts A* A* A.

Roedd y gwobrau am y canlyniadau AS gorau hefyd yn syfrdanol:
Lowri Llwyd Roberts AAAA, Elin Wrennal AAAA and Elin Arfon AAAB

Rhoddwyd y wobr am ganlyniadau TGAU gorau gan **Glwb Rotari Dyffryn Conwy** a chymaint oedd y rhagoriaeth fel bod wyth disgybl yn wir- haeddiannol ac yn rhannu'r wobr: Hannah Bird, Lois Evans, John Brereton, Erin Jones, Ynyr Jones, Tolly Taylor a Talia Williams gyda 50 A*/A i'w ryfeddu rhyngddynt!

Uchafbwyntiau eraill oedd y wobr am gyflawniad ardderchog i Haydn Jenkins. Cyflwynodd **Maer Llanrwst** wobr am ei chyfraniad i'r gymuned i Annie Monks. Rhoddwyd gwobrau hefyd i ddisgyblion am eu canlyniadau ardderchog yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ac eleni hefyd am y tro cyntaf roedd gwobrau am ragoriaeth yn y profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

Wrth gloi y seremoni talodd **Mr Bebb** deyrnged i'r disgyblion ac i'r ysgol am eu hymdrechion neilltuol, a phwysleisiodd pa mor bwysig yw addysg a sgiliau yn y gweithle.

Dyma ddechrau ysbrydoledig i flwyddyn academaidd 2013/14 a fydd heb amheuaeth yn flwyddyn lwyddiannus arall i ddisgyblion talentog Ysgol Dyffryn Conwy.